Community Housing Cymru

# Datganiad cyllidol Hydref 2023

## 22 Tachwedd 2023

## Cyflwyniad

Mae'r datganiad cyllidol hwn yn cyflwyno cynlluniau gwariant Llywodraeth y DU ar wasanaethau cyhoeddus a threthiant. Mae prif feysydd ffocws y datganiad yn cynnwys torri treth pobl mewn gwaith a busnesau, diwygiadau llesiant a buddsoddi mewn busnesau sy'n targedu mewn sectorau twf.

Er y gwnaeth y Canghellor gadarnhau fod chwyddiant wedi gostwng, gyda'r gyfradd gyfredol yn 4.6%, daw'r datganiad hwn ar amser pan fo llawer o bobl yn dal i wynebu effeithiau'r argyfwng costau byw. Gwyddom fod y pwysau ar gymdeithasau tai hefyd yn enfawr. Mae'r papur gwybodaeth hwn yn rhoi rhai o'r prif benawdau ar faterion o berthnasedd neilltuol i gymdeithasau tai a'u tenantiaid yng Nghymru.

## Tai

Lwfans Tai Lleol

Cadarnhaodd y Canghellor y caiff y Lwfans Tai Lleol ei gynyddu i 30ain canradd rhenti marchnad lleol ym mis Ebrill 2024. Mae hyn yn dilyn gwaith sylweddol gan Sefydliad Bevan, a gefnogwyd gan CHC a sefydliadau eraill, i amlygu effaith rhewi'r Lwfans Tai Lleol ar y rhai yn y sector rhent preifat a'r effaith ddilynol ar yr argyfwng tai cyffredinol.

Fodd bynnag, oes fer fydd gan hyn. Mae'r OBR wedi cadarnhau ers hynny bod y Llywodraeth yn bwriadu rhewi cyfraddau Lwfans Tai Lleol eto o 2025/26.

Digartrefedd

Mae'r Llywodraeth yn darparu £120 miliwn ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig ac awdurdodau lleol yn Lloegr i'w buddsoddi mewn atal digartrefedd. Ynghyd â'n hymgyrch gyfredol Materion Tai

gyda Cymorth Cymru er mwyn i Lywodraeth Cymru ddiogelu a chynyddu buddsoddiad yn y Grant Cymorth Tai, byddwn yn ceisio cael eglurdeb fel mater o frys ar statws yr ymrwymiad cyllid hwn a sut y caiff ei ddefnyddio.

# Llesiant

Diwygiadau i'r system budd-daliadau

Cyhoeddodd y Canghellor ddiwygiadau i'r Asesiad Galluedd Gwaith (WCA) a bydd yn targedu £1.3 biliwn o gyllid dros y pum mlynedd nesaf i gefnogi unigolion gyda chyflyrau iechyd yn ôl i'r gwaith. Caiff £1.3 biliwn ychwanegol ei ddarparu i gefnogi'r rhai a fu allan o waith am dros flwyddyn heb unrhyw gyflwr iechyd.

Caiff cosbau cryfach eu rhoi ar waith ar gyfer y rhai sy'n dewis peidio cymryd rhan mewn unrhyw raglenni sy'n anelu i'w cefnogi yn ôl i waith, a chaiff hawliadau eu cau ar gyfer unigolion a fu ar gosb pen-agored am dros chwe mis.

# Costau Byw

Cynnydd chwyddiant ar gyfer budd-daliadau

Bydd budd-daliadau yn cynyddu gan 6.7% y flwyddyn y nesaf, cyfradd chwyddiant Medi 2023, gyda chynnydd cyfartalog o £470 fesul aelwyd. Fe wnaeth y Canghellor gydnabod ymgyrch Sefydliad Joseph Rowntree ac eraill yn amlygu effaith costau byw ar y rhai ar yr incwm isaf. Gellir gweld yr adroddiad y gwnaethom ei gyhoeddi'n ddiweddar ar effaith yr argyfwng costau byw yma.

Pensiynau

Mae'r Canghellor wedi anrhydeddu ymrwymiad y Llywodraeth i'r clo triphlyg, ac wedi cynyddu'r pensiwn gwladol gan 8.5%, sy'n werth hyd at £900 yn fwy y flwyddyn. Mae hyn yn un o'r cynnydd arian mwyaf erioed i'r pensiwn gwladol.

Bydd y Llywodraeth yn lansio'r galwad am dystiolaeth ar fodel darparydd gydol oes i symleiddio'r farchnad pensiynau drwy alluogi unigolion i symud tuag at gael un pot pensiwn am oes, ac ar rôl estynedig bosibl ar gyfer cynlluniau cyfraniad diffiniedig torfol (CDC) yn y dyfodol.

# Treth a chyflogau

Yswiriant Gwladol

**Yswiriant Gwladol Cyflogeion:** Daw gostyngiad o 2% yng nghyfradd cyflogeion cyfraniad i rym ar 6 Ionawr 2024, gan ostwng cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogeion o'r gyfradd gyfredol o 12% i 10%.

**Yswiriant Gwladol Hunangyflogedig:** Cyhoeddwyd diddymu'r gyfradd Yswiriant Gwladol 'dosbarth dau' ar gyfer yr hunan-gyflogedig, ynghyd â gostwng y gyfradd 'dosbarth 4' gan 1 pwynt canran i 8%. Caiff hyn ei gyflwyno o fis Ebrill 2024.

Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw

Mae'r Canghellor wedi cadarnhau y byddai'r cyflog byw cenedlaethol yn cynyddu gan ychydig dros £1 yr awr i £11.44 o £10.42. Bydd y gyfradd uwch yma ar gyfer rhai dros 21 oed, yn flaenorol roedd hyn ar gyfer rhai dros 23 oed. Bydd cynnydd o £1.11 yr awr yn yr isafswm cyflog cenedlaethol ar gyfer rhai 18 i 20 oed. Mae manylion llawn ar gael yma

# Grant bloc i Gymru

Fel canlyniad i benderfyniadau yn Natganiad yr Hydref, rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn £305 miliwn o gyllid ychwanegol drwy fformiwla Barnett. Caiff cyllid Llywodraeth Cymru hefyd ei addasu yng nghyswllt datganoli treth a llesiant fel y nodir yn eu fframwaith cyllidol.

Bydd drafft gyllideb Llywodraeth Cymru, a ddisgwylir ar 19 Rhagfyr, yn nodi sut y caiff gwariant ar gwasanaethau cyhoeddus ei ddyrannu yn y flwyddyn i ddod. Mae CHC yn gweithio i lywio a dylanwadu ar drafodaethau Llywodraeth Cymru a Phwyllgorau Senedd Cymru ar flaenoriaethau ar gyfer y gyllideb arfaethedig.

# Cyhoeddiadau eraill

Adeiladu tai a chynllunio (Lloegr yn unig)

Mae'r Llywodraeth yn buddsoddi £32 miliwn ar draws tai a chynllunio i hybu cyflenwad tai. Mae hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol i drin cefnlwyth cynllunio mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol, ynghyd â diwygiadau'r dyfodol i symleiddio'r system drwy Hawl Datblygu a Ganiateir i alluogi un tŷ i gael ei addasu yn ddau gartref, ac ymgynghorir ar hyn yn y flwyddyn newydd.

Fe wnaeth y Canghellor hefyd gadarnhau y bydd £110 miliwn ar gael drwy Gronfa Lliniaru Maethion Lleol. Bydd hyn yn cynnwys Awdurdodau Cynllunio Lleol y mae rheolau niwtraliaeth maethion i gyflwyno cynlluniau gwrthbwyso maethon lleol.

Busnes a sgiliau

Prentisiaethau: Ymrwymodd y llywodraeth £50 miliwn i gyflwyno cynllun peilot prentisiaethau dwy-flynedd i ysgogi hyfforddiant mewn sectorau twf a thrin rhwystrau i fynediad. (Lloegr yn unig)

Parthau twf a buddsoddiad: cyhoeddodd y llywodraeth £37.5 miliwn i gefnogi adfywio mewn lleoedd ar draws y Deyrnas Unedig, **yn cynnwys Sir Fynwy.** Bydd y llywodraeth hefyd yn cefnogi Gŵyl y Gelli. Caiff ail barth buddsoddi ei greu yng Nghymru – yn **Wrecsam** a **Sir y Fflint –** sy'n cynnwys cymorth

tref, wedi'i anelu at hybu twf economaidd. Mae'r llywodraeth hefyd yn ymestyn y cyfnod y bydd cymorth treth ar gael mewn porthladdoedd rhydd o bump i ddeg mlynedd.

Seilwaith trydan

Cyflwynodd y Llywodraeth gynllun gweithredu i haneru faint o amser a gymerir i adeiladu seilwaith grid newydd. Mae elfennau allweddol y cynllun gweithredu hwn yn cynnwys: bydd aelwydydd sy'n byw yn agos at beilonau newydd a seilwaith trawsyrru yn cael hyd at £1,000 y flwyddyn oddi ar filiau ynni am ddegawd; ymrwymiad i gomisiynu'r Gweithredydd System Trydan i weithio gyda'r Llywodraeth i gynhyrchu Cynllun Ynni Gofodol Strategol newydd; a chyflwyno cystadleuaeth i rwydweithiau trydan ar y tir yn 2024 er budd defnyddwyr.

# Camau nesaf

Byddwn yn asesu effeithiau'r datganiad hwn ac yn gweithio gyda phartneriaid a chwaer ffederasiynau tai fel rhan o'n hymgyrch Methu dod â Deupen Llin Ynghyd i alw fel mater o frys ar Lywodraeth y DU i wneud mwy i sicrhau y caiff aelodau mwyaf bregus cymdeithas eu gwarchod yn ddigonol rhag effeithiau'r argyfwng parhaus mewn costau byw.

Byddwn yn parhau i gynnal trafodaethau a rhoi tystiolaeth i swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru cyn drafft gyllideb Llywodraeth Cymru gan gyflwyno'r achos i ddiogelu buddsoddiad hanfodol mewn tai, gofal a chymorth.

*I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag: Emily Jones: emily-jones@chcymru.org.uk*